RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD BRIAN JONES AR RAN Y GRŴP GEIDWADOL I'W YSTYRIED GAN Y CYNGOR LLAWN.

CYFLWYNIAD:
Mae'r Alex Angels yn grŵp bach o weithwyr proffesiynol meddygol sydd wedi ymddeol, a fu'n hyfforddi yn Ysbyty Brenhinol Alexander yn y Rhyl pan oeddynt yn ifanc cyn dechrau ar yrfaoedd meddygol llwyddiannus mewn amryw o awdurdodau iechyd ac, yn benodol, ardal Gogledd Cymru. Mae'r Alex Angels yn deall problemau cyfredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac, yn bwysicach, mae ganddynt wybodaeth ymarferol synhwyrol am yr hyn y gellid ei wneud i ddatrys llawer o'r problemau cyfredol mae BIPBC yn eu profi.

Mae arwyddion cynnar yn dangos y gellir diwallu gofynion staffio a gofynion ariannol i fodloni amcanion y ddeiseb o gyllidebau presennol BIPBC a llwybrau recriwtio mewnol ac allanol.

Gall Cyngor Sir Ddinbych hefyd gefnogi agweddau ariannol y ddeiseb o'i gronfeydd wrth gefn mewn argyfwng.

Y RHYBUDD O GYNNIG:
'1) Mae'r cynnig yn galw ar holl Gynghorwyr Sir Ddinbych i ymrwymo i gefnogi deiseb gyfredol yr Alex Angels – sydd ar-lein ac ar gael mewn copi caled – sy'n galw ar BIPBC i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer adfer capasiti gwelyau i Ysbyty Brenhinol Alexander, y Rhyl, ar gyfer y byrdymor i'r tymor canolig gyda'r bwriad o liniaru'r blocio gwelyau sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn rhai ardaloedd yn y rhanbarth.
2) Mae'r cynnig hefyd yn galw ar Swyddogion perthnasol Cyngor Sir Ddinbych (CSDd), Aelod Cabinet Arweiniol perthnasol CSDd, a BIPBC sydd newydd ei benodi i ymgysylltu a chyfarfod â grŵp Alex Angels i gydweithio a thrafod yn ystyrlon yn dilyn canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb arfaethedig.
3) Mae'r cynnig hefyd yn galw ar Bwyllgor Craffu Cymunedau CSDd i gynnwys eitem ar raglen y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer derbyn adroddiad astudiaeth ddichonoldeb BIPBC gan Swyddogion CSDd ynglŷn â deiseb Alex Angels, ynghyd â briff manwl am y cydweithio a thrafod arfaethedig y cyfeirir atynt uchod rhwng y budd-ddeiliaid a enwir.'